

---

## **Polisi cyffredinol ar sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau diogelwch**

Ymgynghoriad ar ddatganiad polisi cyffredinol drafft Ofcom o dan adran 105Y Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("arweiniad ar weithdrefn" Ofcom) ac

Ymgynghoriad ar arweiniad drafft Ofcom ar ofynion cydnerthedd yn adrannau 105A i D Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("arweiniad ar gydnerthedd" Ofcom)

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 8 Mawrth 2022

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 17 Mai 2022

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg	1
-------------	---

## Atodiad

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	7
A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom	10
A3. Taflen glawr yr ymgynghoriad	11
A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad	12

Wedi'i gyhoeddi fel atodiadau ar wahân:

- A5. Datganiad polisi cyffredinol drafft o dan adran 105Y Deddf Cyfathrebiadau 2003
- A6. Arweiniad drafft ar ofynion cydnerthedd yn adrannau 105A i D Deddf Cyfathrebiadau 2003

## Trosolwg

Yn dilyn y gofyniad o dan adran 105Y Deddf Cyfathrebiadau 2003, mae'r ddogfen hon yn nodi ein harweiniad arfaethedig ar ein polisi cyffredinol mewn perthynas ag arfer ein swyddogaethau o dan adrannau 105I a 105M i 105V Deddf 2003. Mae hefyd yn cynnig diweddariad i'n harweiniad presennol ar ofynion diogelwch yn adrannau 105A i D Deddf 2003 sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021, felly mae'n canolbwyntio ar sut y dylai darparwyr ymdrin â'u rhwymedigaethau o ran cydnerthedd o dan y fframwaith newydd.

## Beth rydym yn ei gynnig

**Rydym yn ymgynghori ar ddatganiad drafft ein polisi cyffredinol o dan adran 105Y Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") ynghylch sut y byddwn yn arfer ein swyddogaethau newydd i geisio sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch newydd o dan y fframwaith diogelwch diwygiedig.**

Mae ein datganiad arfaethedig yn esbonio'r gweithdrefnau yr ydym yn disgwyl eu dilyn yn gyffredinol wrth gyflawni ein gweithgarwch monitro a gorfodi. Rydym hefyd yn darparu arweiniad cyffredinol ynghylch pa gyfaddawdau diogelwch y byddem fel arfer yn disgwyl i ddarparwyr eu hadrodd i Ofcom a'r broses ar gyfer eu hadrodd.

Un o amcanion allweddol ein rôl fonitro dros flynyddoedd cyntaf y gyfundrefn yw penderfynu a yw pob darparwr yn gweithredu mesurau priodol yn ddigon cyflym, wrth iddynt barhau i weithio tuag at gydymffurfiaeth lawn. Pan fyddwn yn dod o hyd i feysydd sy'n peri pryder, byddwn yn ceisio gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod mesurau priodol a chymesur yn cael eu gweithredu yn unol â'r dyletswyddau diogelwch. Disgwylwn y bydd yr ymagwedd gydweithredol hon yn meithrin ymddygiadau cydymffurfio gwell ac yn lleihau nifer yr achosion o dor rheolau o dan Ddeddf 2003, yn ogystal â lleihau'r angen am ymchwiliadau rheoleiddio. Byddwn yn barod i ddefnyddio ein hystod o bwerau gorfodi fel y bo angen.

**Rydym hefyd yn ymgynghori ar arweiniad wedi'i ddiweddarau ar y gofynion diogelwch yn adrannau 105A i D Deddf 2003 sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021.**

Mae'r fframwaith diogelwch newydd yn disodli adrannau presennol 105A-105D Deddf 2003, gan osod dyletswyddau diogelwch newydd ar ddarparwyr rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig cyhoeddus, yn Neddf 2003 ei hun ac mewn rheoliadau. Ategir hyn gan godau ymarfer statudol sy'n rhoi arweiniad ar y mesurau sydd i'w cymryd o dan adrannau 105A i 105D.

O ystyried y fframwaith newydd hwn, rydym yn bwriadu diweddarau ein harweiniad presennol ar adrannau 105A i D Deddf 2003, gan gydnabod yn benodol nad oes angen llawer o'r arweiniad hwn mwyach o ystyried y Cod Ymarfer drafft y mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori arno ar hyn o bryd. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu **ein bod yn bwriadu cadw'r arweiniad hwn dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud â'r is-gategori o gyfaddawdau diogelwch sy'n ymwneud â gwydnwch rhwydweithiau a gwasanaethau, o ran argaeledd, perfformiad neu ymarferoldeb.**

Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle hwn i ddiweddarau'r arweiniad i ystyried y fframwaith diwygiedig, yn ogystal ag adlewyrchu natur newidiol risgiau cydnherthedd a phrofiad Ofcom o adrodd ac ymchwilio i ddigwyddiadau.

- 1.1 Mae Deddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 (y "**Ddeddf Diogelwch**")<sup>1</sup> yn cyflwyno fframwaith diwygiedig ar gyfer gwarchod diogelwch a chydnerthedd y gwasanaeth a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig cyhoeddus yn y DU.

---

<sup>1</sup> [Deddf Telegyfathrebiadau \(Diogelwch\) 2021 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

- 1.2 Nodir y fframwaith blaenorol yn adrannau 105A-105D Deddf Cyfathrebiadau 2003 (Deddf 2003") ac fe'i hategwyd gan ganllawiau Ofcom a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2017 ("Canllawiau 2017 Ofcom").<sup>2</sup>

## Dyletswyddau ac arweiniad diogelwch o dan y fframwaith diwygiedig

- 1.3 Mae'r fframwaith newydd yn disodli adrannau 105A-105D Deddf 2003 a disgwylir iddo ddod i rym o 1 Hydref 2022.<sup>3</sup> Mae'n gosod dyletswyddau diogelwch newydd ar ddarparwyr rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebiadau electronig cyhoeddus ("**darparwyr**"), gan gynnwys:
- y dyletswyddau diogelwch trosgynnol a nodir yn Neddf 2003 (adrannau 105A a 105C);
  - dyletswyddau i gymryd camau penodedig a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau (adrannau 105B a 105D); a
  - dyletswyddau i adrodd cyfaddawdau diogelwch i Ofcom ac i hysbysu defnyddwyr (adrannau 105J a 105K).
- 1.4 Mae'r fframwaith diwygiedig hefyd yn darparu ar gyfer dau fath o arweiniad i ddarparwyr:
- a) Arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y mesurau sydd i'w cymryd gan ddarparwyr o dan adrannau 105A i 105D. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i ddarparu'r fath arweiniad drwy gyhoeddi codau ymarfer o dan adran 105E Deddf 2003;
  - b) Polisi cyffredinol Ofcom ar sut y byddwn yn arfer ein swyddogaethau o dan adrannau 105I a 105M i 105V i geisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau diogelwch. Mae Deddf 2003 (adran 105Y) yn gosod dyletswydd ar Ofcom i gyhoeddi datganiad sy'n nodi polisi cyffredinol o'r fath ac i roi sylw iddo wrth arfer ein swyddogaethau perthnasol.

## Rôl Ofcom

- 1.5 Mae'n ddyletswydd gyffredinol ar Ofcom o dan adran 105M Deddf 2003 i geisio sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch. Mae hyn yn rhoi cylch gwaith clir i Ofcom weithio gyda darparwyr i wella eu diogelwch a monitro eu cydymffurfiaeth.
- 1.6 Mae gan Ofcom hefyd rai swyddogaethau adrodd ar gyfer materion sy'n ymwneud â diogelwch. Yn benodol, mae'n ddyletswydd ar Ofcom i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am risgiau penodol sy'n deillio o gyfaddawd diogelwch o dan adran 105L, a rhaid iddi hefyd baratoi ac anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol:
- adroddiadau diogelwch o dan adran 105Z; ac
  - adroddiadau seilwaith o dan adran 134A sy'n nodi i ba raddau y mae darparwyr yn cydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch.<sup>4</sup>

---

<sup>2</sup> Canllawiau Ofcom ar ofynion diogelwch yn adrannau 105A i D Deddf Cyfathrebiadau 2003 - Fersiwn 2017; [ofcom-guidance.pdf](#)

<sup>3</sup> Yn ddarostyngedig i'r dyddiad dechrau sydd i'w bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau.

<sup>4</sup> Gweler, yn benodol, adran 134B(1)(ha) ac adran 134B(2)(fa). At hynny, gall Ofcom baratoi a chyhoeddi adroddiadau ychwanegol o dan adran 134AA Deddf 2003.

## Ymgynghoriadau'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar y Rheoliadau a'r Cod

1.7 Fel y soniwyd uchod, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i bennu mesurau diogelwch penodol ar ddarparwyr drwy wneud rheoliadau a rhoi arweiniad ar y mesurau sydd i'w cymryd drwy gyhoeddi codau ymarfer. Wrth arfer y pwerau hyn, mae DCMS wrthi'n ymgynghori ar:

- reoliadau drafft y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu eu gwneud o dan adrannau 105B a 105D (y "**Rheoliadau**");<sup>5</sup> ac
- cod ymarfer drafft y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu ei gyhoeddi o dan adran 105E i roi arweiniad i ddarparwyr sydd â throsiant perthnasol yn y cyfnod perthnasol o fwy na £50m neu'n hafal iddo (y "**Cod**").<sup>6</sup>

## Arweiniad Ofcom ar weithdrefn

1.8 Mae'r fframwaith diwygiedig yn rhoi dyletswydd gyffredinol i Ofcom o dan adran 105M Deddf 2003 i geisio sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau diogelwch. Er mwyn i Ofcom gyflawni'r rôl hon, mae Deddf 2003 yn rhoi pwerau i Ofcom fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth y diwydiant â'u dyletswyddau diogelwch (adrannau 105I a 105N i 105V). Yn benodol, mae'n caniatáu i Ofcom:

- fynnu bod darparwyr yn rhannu gwybodaeth y mae Ofcom yn ei hystyried yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau diogelwch (adran 135, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Diogelwch<sup>7</sup>);
- cyfarwyddo darparwyr i esbonio unrhyw fethiant i weithredu yn unol â'r arweiniad a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cod ymarfer (adran 105I);
- cynnal asesiad, neu gomisiynu eraill i gynnal asesiad, i ganfod a yw darparwr yn cydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch (adran 105N);
- rhoi hysbysiadau asesu (adran 105O), gan gynnwys cyhoeddi hysbysiad asesu sy'n mynnu bod darparwr yn cydymffurfio â dyletswydd ar frys (adrannau 105P a 105Q). Gall hysbysiadau asesu gynnwys mynnu bod darparwyr yn cwblhau profion system, sicrhau bod staff ar gael i'w cyfweled a chaniatáu i bersonau a awdurdodir gan Ofcom fynd i mewn i safleoedd<sup>8</sup> gweithredwyr i weld gwybodaeth ac offer, ac arsylwi profion;
- gorfodi cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau diogelwch (adran 105S), gan gynnwys drwy bennu cosbau (adran 105T) a chyfarwyddo darparwr i gymryd camau dros dro (adrannau 105U a 105V).

---

<sup>5</sup> ymgynghoriad DCMS ar "Y Rheoliadau Cyfathrebiadau Electronig (Mesurau Diogelwch) 2022", sydd ar ffurf ddrafft o hyd, ac ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/consultations/proposal-for-new-telecoms-security-regulations-and-code-of-practice>

<sup>6</sup> <https://www.gov.uk/government/consultations/proposal-for-new-telecoms-security-regulations-and-code-of-practice>.

<sup>7</sup> Gweler, yn benodol, adran 135(3)(iza)-(izc), adran 135(3A)(za) ac adran 135(3C) Deddf 2003.

<sup>8</sup> Mae Deddf 2003 (adran 105R) yn gosod dyletswydd ar Ofcom i gyhoeddi datganiad yn ein hadroddiad blynyddol sy'n nodi nifer yr achlysuron yr aed i mewn i safleoedd yn unol â dyletswydd a osodwyd mewn hysbysiad asesu.

- 1.9 O dan adran 105Y o Ddeddf 2003, mae'n ddyletswydd ar Ofcom i gyhoeddi datganiad o'u polisi cyffredinol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan adrannau 105I a 105M i 105V Deddf 2003. Mae Atodiad [A5] yn cynnwys ein datganiad polisi cyffredinol drafft o dan adran 105Y Deddf 2003, sy'n nodi sut rydym yn bwriadu arfer ein pwerau newydd.
- 1.10 Yn benodol, mae ein datganiad polisi cyffredinol drafft o dan adran 105Y o Ddeddf 2003 yn esbonio'r gweithdrefnau yr ydym yn gyffredinol yn disgwyl eu dilyn wrth gyflawni ein gweithgarwch monitro a gorfodi. Mae hefyd yn darparu arweiniad cyffredinol ynghylch pa gyfaddawdau diogelwch y byddem fel arfer yn disgwyl i ddarparwyr eu hadrodd i Ofcom a'r broses ar gyfer eu hadrodd. Bwriedir i'r arweiniad hwn ar ddyletswyddau darparwyr i adrodd cyfaddawdau diogelwch ddisodli'r arweiniad adrodd digwyddiadau a nodir ar hyn o bryd yn Arweiniad 2017 Ofcom. Yn ogystal â'r uchod, mae ein datganiad cyffredinol drafft yn rhoi arweiniad ar ymagwedd Ofcom at rannu gwybodaeth â chyrrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys DCMS, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Arweiniad Ofcom ar gydnerthedd

- 1.11 Mae'r Ddeddf Diogelwch yn cyflwyno'r diffiniad o "gyfaddawd diogelwch". Mae'r arweiniad a nodir yn Atodiad [A6] yn berthnasol i'r is-gategori o gyfaddawdau diogelwch sy'n ymwneud â chydnerthedd rhwydweithiau a gwasanaethau, o ran argaeledd, perfformiad neu swyddogaeth (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "Digwyddiadau Cydnerthedd").
- 1.12 O ystyried y fframwaith newydd a ddisgrifir uchod, rydym yn bwriadu diweddarau ein harweiniad presennol o 2017 ar adrannau 105A i D o Deddf 2003, gan gydnabod yn benodol nad oes angen llawer o'r arweiniad hwn mwyach o ystyried y Cod drafft y mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori arno ar hyn o bryd. Mae ein harweiniad ar ei newydd wedd wedi'u nodi yn Atodiad [A6]. Bwriad yr arweiniad hwn yw diweddarau'r arweiniad gysylltiedig â chydnerthedd a nodir ar hyn o bryd yn Arweiniad 2017 Ofcom.
- 1.13 Bydd arweiniad presennol Ofcom, i'r graddau y mae'n ymwneud â chyfaddawdau diogelwch ar wahân i Ddigwyddiadau Cydnerthedd, yn cael eu disodli gan y Cod.
- 1.14 Bydd arweiniad presennol Ofcom ar adrodd am ddigwyddiadau yn cael eu disodli gan arweiniad Ofcom ar adrodd am gyfaddawdau diogelwch (gan gynnwys Digwyddiadau Cydnerthedd) sydd wedi'u cynnwys yn natganiad polisi cyffredinol Ofcom.
- 1.15 Mae'r arweiniad arfaethedig ar ei newydd wedd bellach yn disgrifio sut rydym yn bwriadu defnyddio ein pwerau ac yn nodi'r ffynonellau arweiniad y byddwn yn eu hystyried wrth gyflawni ein swyddogaethau mewn perthynas â chydnerthedd. Mae hefyd yn darparu rhai arsylwadau cyffredinol a senarios digwyddiadau penodol a fydd yn cyfeirio ein hymagwedd at gydnerthedd. I gydnabod hyn, rydym yn cynnig ail-lunio'r hyn a oedd yn arweiniad cyffredinol fel arweiniad ar ofynion cydnerthedd yn adrannau 105A i D Deddf Cyfathrebiadau 2003. Pan wneir penderfyniadau'r Llywodraeth sy'n deillio o Adolygiad Strategaeth Cydnerthedd Genedlaethol Llywodraeth y DU, byddai Ofcom yn disgwyl ei adolygu a'i ddiweddarau neu ei ddirymu fel y bo'n briodol.

## Diben yr ymgynghoriad hwn

- 1.16 Bydd y cyfnod ymgynghori yn para am 10 wythnos ar ôl cyhoeddi'r ddogfen hon. Yn ystod y cyfnod hwnnw, byddem yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar y datganiad polisi cyffredinol arfaethedig (drafft) a'r arweiniad (drafft) ar gydnerthedd a nodir yn Atodiad A5 ac Atodiad A6 yn y drefn honno erbyn [17 Mai 2022].
- 1.17 Gwahoddir ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn i roi sylwadau ar gynigion Ofcom drwy ymateb i'r cwestiynau a nodir yn Atodiad [A4].

## Y Camau Nesaf

- 1.18 Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad polisi cyffredinol terfynol a'n harweiniad terfynol ar gydnerthedd yn hydref 2022, ar ôl i DCMS gyhoeddi'r Cod.



# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

- A1.1 Hoffai Ofcom dderbyn safbwyntiau a sylwadau ar y materion a godir yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 17 Mai 2022.
- A1.2 Gallwch lawrlwytho'r ffurflen ymateb yn <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/ensuring-compliance-with-security-duties>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu ei fod yn cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, anfonwch ef trwy e-bost i [securityconsultation@ofcom.org.uk](mailto:securityconsultation@ofcom.org.uk), fel atodiad yn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r [daflen glawr](#). Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 17 Mai 2022.
- A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, wedi'u marcio â theitl yr ymgynghoriad:
- Cindy Hau  
Ofcom  
Riverside House  
2a Southwark Bridge Road  
Llundain SE1 9HA
- A1.5 Rydym yn croesawu ymatebion mewn fformatau heblaw print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydeinig. I ymateb yn BSL:
- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb. Dylai hyn fod yn 5 munud ar y mwyaf. Fformatau ffeil addas yw DVD, wmv neu QuickTime. Neu
  - Uwchlwythwch fideo ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb yn uniongyrchol i YouTube (neu wefan letya arall) ac anfonwch y ddolen atom.
- A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a dderbyniwn (oni bai bod eich ymateb yn gyfrinachol)
- A1.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ychwanegol at fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn eich ymateb os caiff ei gyflwyno trwy'r ffurflen we electronig, ond ddim fel arall.
- A1.8 Nid oes rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad os nad oes barn gennych; mae ymateb byr ar un pwynt yn unig yn iawn. Rydym yn croesawu ymatebion ar y cyd hefyd.
- A1.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiwn wedi'i restru yn Atodiad A4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam mae gennych y safbwyntiau sydd gennych, a beth rydych chi'n ei gredu y byddai effaith cynigion Ofcom.

- A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Cindy Hau ar 020 7981 3212, neu drwy anfon neges e-bost i [securityconsultation@ofcom.org.uk](mailto:securityconsultation@ofcom.org.uk)

## Cyfrinachedd

- A1.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion cyn y daw'r cyfnod ymgynghori i ben. Yn benodol, gall hyn helpu pobl a sefydliadau sydd ag adnoddau cyfyngedig neu gyfarwydd-deb â'r materion i ymateb mewn ffordd fwy gwybodus. Felly, er tryloywder ac arfer rheoleiddio da, ac oherwydd i ni gredu ei fod yn bwysig i bawb sydd â buddiant mewn mater fedru gweld barn ymatebwyr eraill, rydym fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar [wefan Ofcom](#) mor fuan ag y byddwn yn eu derbyn.
- A1.12 Os credwch y dylai eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, nodwch ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol iddynt, ac esboniwch pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi eisiau i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill neu deitl swydd aros yn gyfrinachol, darparwch nhw ddim ond yn y daflen glawr, fel nad oes rhaid i ni olygu eich ymateb.
- A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan, neu ran ohono, yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A1.14 Noder hefyd y tybir yr hawlfraint a'r holl eiddo deallusol yn yr ymatebion wedi'u trwyddedu i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau Ofcom wedi'u hesbonio ymhellach yn ein [Telerau Defnyddio](#).

## Y camau nesaf

- A1.15 Gan ddilyn y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn hydref 2022.
- A1.16 Os dymunwch, gallwch [gofrestru i dderbyn diweddariadau post](#) i'ch hysbysu am gyhoeddiadau newydd gan Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

- A1.17 Mae Ofcom yn ceisio gwneud ymateb i ymgynghoriad mor hawdd â phosib i gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad A2.
- A1.18 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â sut rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, gyrrwch e-bost atom yn [consult@ofcom.org.uk](mailto:consult@ofcom.org.uk). Yn benodol rydym yn croesawu syniadau ar sut y gallai Ofcom gywain barn grwpiau neu unigolion yn fwy effeithiol, megis busnesau bach a chwsmeriaid preswyl, sy'n llai tebygol o gyflwyno eu barn trwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A1.19 Os hoffech chi drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth

Ofcom

Riverside House

2a Southwark Bridge Road

Llundain SE1 9HA

E-bost: [ysgrifennyddygorfforaeth@ofcom.org.uk](mailto:ysgrifennyddygorfforaeth@ofcom.org.uk)

## A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

### Mae gan Ofcom saith egwyddor y mae'n eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

#### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Pryd bynnag y bo'n bosib, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i ddarganfod a ydym ar y trywydd iawn o ran ein ffordd o feddwl. Os na fydd gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i esbonio ein cynigion, yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

#### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy yr ydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba gyfnod.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori mor fyr a syml â phosib, gyda chrynodeb o ddwy dudalen ar y mwyaf. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn un cymhleth, mae'n bosib y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English, i helpu sefydliadau bach neu unigolion na fyddent fel arall yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am hyd at ddeg wythnos, gan ddibynnu ar effaith botensial ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun o fewn Ofcom â gofal sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain a cheisio cyrraedd y nifer mwyaf posib o bobl a sefydliadau a allai fod â buddiant yn neilliannau ein penderfyniadau. Y prif berson i gysylltu â hwy yw Eiriolwr Ymgynghori Ofcom os oes gennych farn am y ffordd yr ydym yn rhedeg ein hymgyngoriadau.

A2.6 Os na fydd modd i ni ddilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn esbonio pam.

#### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydym yn credu ei fod yn bwysig i bawb sydd â buddiant mewn mater fedru gweld barn ymatebwyr eraill, felly rydym fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar wefan Ofcom mor fuan ag y byddwn yn eu derbyn. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n esbonio beth rydym yn mynd i wneud, a pham, gan ddangos sut mae barn ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

## A3. Taflen glawr yr ymgynghoriad

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r sawl sy'n ymateb:

Yn cynrychioli (chi eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os nad yw wedi'i dderbyn trwy e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod pa rannau o'ch ymateb sy'n gyfrinachol, gan roi eich rhesymau dros hynny

Dim byd

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? \_\_\_\_\_

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a all Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, ar gyfer unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn galluogi i chi gael eich adnabod)?

### DATGANIAD

Cadarnhaf fod yr ohebiaeth a ddarperir gyda'r daflen glawr hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol." Os wyf wedi anfon fy ymateb trwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt gael eu derbyn. Os yw eich ymateb yn anghyfrinachol (yn rhannol neu'n gyfan gwbl), a bod yn well gennych i ni gyhoeddi eich ymateb dim ond ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os yn gopi caled)

## A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

### **Cwestiynau ynghylch datganiad polisi cyffredinol drafft Ofcom o dan adran 105Y Deddf Cyfathrebiadau 2003 (gweler Atodiad A5)**

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein hymagwedd arfaethedig at fonitro cydymffurfiaeth?

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein hymagwedd arfaethedig at brofi?

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein hymagwedd arfaethedig at orfodi?

**Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein hymagwedd arfaethedig at adrodd am gyfaddawdau diogelwch?

**Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein hymagwedd arfaethedig at rannu gwybodaeth?

**Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar ein datganiad polisi cyffredinol drafft a nodir yn Atodiad A5 i'r ymgynghoriad hwn?

### **Cwestiynau ynghylch arweiniad drafft Ofcom ar ofynion cydnerthedd yn adrannau 105A i D Deddf Cyfathrebiadau 2003 (gweler Atodiad A6)**

**Cwestiwn 7 yr Ymgynghoriad:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein hymagwedd arfaethedig at ymdrin â chydnerthedd a nodir yn adran 4 yr arweiniad drafft yn Atodiad A6 i'r ymgynghoriad hwn?

**Cwestiwn 8 yr Ymgynghoriad:** A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein harweiniad arfaethedig ar gydnerthedd a nodir yn adran 5 yr arweiniad drafft yn Atodiad A6 i'r ymgynghoriad hwn?

**Cwestiwn 9 yr Ymgynghoriad:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar ein harweiniad drafft a nodir yn Atodiad A6 i'r ymgynghoriad hwn?